



---

# ADRODDIADAU ARHOLWYR

---

## LEFEL 3 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT

**UNED 330: Egwyddorion a damcaniaethau  
sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a  
datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng  
Nghymru**

**HYDREF 2021**



Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC:  
<https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?!=cy>

### **Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

### **Adroddiad Ystadegol Blynnyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol Blynnyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn cynnwys canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

# CBAC GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT

## Lefel 3

### Hydref 2021

#### **UNED 330: Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, dysgu, chwarae a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru**

Gan fod hwn yn gymhwyster newydd, roedd y mathau o gwestiynau yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd yn y papur Deunyddiau Asesu Enghreifftiol. Nid oedd unrhyw gwestiynau annisgwyl, ac ymatebodd yr ymgeiswyr yn dda i'r cwestiynau drwy'r papur i gyd. Roedd y mathau o gwestiynau yn darparu amrediad o gwestiynau tariff is a thariff uwch ar draws cynnwys manyleb uned 330. Roedd y cwestiynau'n profi gallu'r ymgeiswyr i ddefnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o egwyddorion a damcaniaethau testunau 1-5.

Nod yr uned yw adeiladu ar wybodaeth am ddysgu damcaniaethol ac ymestyn yr elfen ymarferol i gymhwyso ymgeiswyr i ymateb i'r cwestiynau yn seiliedig ar eu profiadau, gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Ar y cyfan, roedd yr ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth wrth geisio ateb y cwestiynau ond gwelwyd rhai bylchau clir mewn gwybodaeth, yn benodol ym meysydd deddfwriaeth a damcaniaethau am blentyndod. Roedd yr atebion a roddwyd gan yr ymgeiswyr yn seiliedig yn bennaf ar wybodaeth ddamcaniaethol ac yn lleihau trafodaethau a thystiolaeth glir o ddealltwriaeth neu fyfyrion ar ymarfer. Mae hyn yn amlwg o ystyried cyfnodau clo Covid y Llywodraeth a chyfyngiadau parhaus oherwydd y pandemig a chanlyniad diffyg ymarfer mewn amgylchedd addas yn y gweithle.

Rhoddyd cynnig ar bob cwestiwn wrth i'r ymgeiswyr weithio drwy'r papur arholiad, er bod rhai heb roi cynnig ar gwestiwn olaf y papur; gallai hyn fod oherwydd amser, camgymeriad neu wybodaeth a dealltwriaeth. Roedd atebion yr ymgeiswyr yn amrywiol ac yn tueddu i ddangos mwy o fanylder a dealltwriaeth yn y papurau ar-lein, gan nad oes cyfyngiad ar y lle sydd ar gael i ateb. Roedd rhai ymgeiswyr yn rhestru neu'n defnyddio pwyntiau bwled wrth ateb cwestiynau oedd yn gofyn am esboniad neu drafodaeth, ond roedd mwy o fanylder yn yr atebion nag a welwyd yn y gyfres arholiadau flaenorol. Roedd hyn yn eu cynorthwyo i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth yn y bandiau is ond yn cyfyngu ar fynediad at y bandiau uwch gan nad oeddent yn ymateb i'r geiriau gorchymyn sydd yn y cwestiwn i gyflawni'r canlyniad asesu.

## **Adborth cwestiynau unigol.**

### **C.1 Mae hybu iechyd a llesiant cyffredinol ar gyfer gofal cyn cenedlu ac yn ystod beichiogrwydd yn flaenoriaeth (*priority*) ym maes iechyd mamau a phlant.**

#### **Disgrifiwch amrywiaeth o ffactorau sy'n cyfrannu at feichiogrwydd iach.**

Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i'r ymgeiswyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth maen nhw wedi'u hennill drwy ddysgu damcaniaethol i ddisgrifio amrywiaeth o ffactorau sy'n cyfrannu at feichiogrwydd iach. Roedd yn amlwg bod yr ymgeiswyr yn deall y maes hwn yn dda, a llawer ohonynt yn cysylltu eu dealltwriaeth o fwyta ac yfed yn iach a deiet cytbwys fel yr elfennau sy'n cefnogi iechyd da. Roedd llawer o ymgeiswyr yn cysylltu eu dealltwriaeth o ffyrdd aniach o fyw ac yn trafod yr hyn y dylid ei osgoi i gyfrannu at feichiogrwydd iach. Roedd trafodaethau da ynghylch gofal iechyd a disgrifiadau o sicrhau bod y fam a'r baban yn cael archwiliadau rheolaidd a phrofion a sgrinio rheolaidd ac afreolaidd fel rhan o'r broses fonitro yn ystod beichiogrwydd. Rhoddwyd marciau uwch i ymgeiswyr oedd yn rhoi disgrifiadau da iawn o amrywiaeth o ffactorau ac yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o hybu beichiogrwydd iach. Ar y cyfan, roedd hwn yn gwestiwn a enillodd farciau uchel a chafodd ymgeiswyr ddechrau da i'w papur arholiad.

### **C.2 Archwiliwch sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio cefnogi'r nod 'Cymru Iachach' ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.**

Roedd y cwestiwn hwn yn anodd i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr gan ei fod yn canolbwyntio ar allu'r ymgeisydd i alw i gof ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o ddeddfwriaeth mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd iechyd a llesiant cadarnhaol i blant yn bwyntiau trafod allweddol, ac roedd atebion llwyddiannus yn archwilio'n dda sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio cefnogi'r nod 'Cymru Iachach' ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy'r cyfleoedd i hyrwyddo 'Cymru Iachach'. Roedd rhai ymgeiswyr yn sôn am gysylltiadau â chynaliadwyedd a gwella llesiant pobl Cymru yn y dyfodol. Roedd rhai'n trafod gwelliannau economaidd ac amgylcheddol ac ymagwedd gymunedol at fywydau pobl. Roedd diffyg archwiliad o bwysigrwydd ymagwedd tymor hir drwy wella anghydraddoldebau iechyd a chefnogi anghenion plant nawr ac yn y dyfodol. Roedd bwllch gwybodaeth clir ynglŷn â'r Ddeddf hon, a rhai ymgeiswyr yn dyfalu atebion amherthnasol. Rhoddodd rhai ymgeiswyr restr fer neu gwpl o bwyntiau bwled; yn anffodus, nid yw hyn yn bodloni disgwyliad gofynnol y meini prawf asesu.

**C.3 Mae technoleg yn chwarae rhan bwysig ym mywyd pob dydd plant, pobl ifanc a theuluoedd.**

**Trafodwch yr effeithiau cadarnhaol a negyddol mae technoleg yn eu cael ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc.**

Enillodd mwyafrif yr ymgeiswyr y marciau uchaf yn y cwestiwn hwn drwy ddatblygu trafodaeth dda iawn. Roedd yr atebion yn eang ac yn amrywiol, ac yn rhoi trafodaeth dda iawn ynglŷn â'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mae technoleg yn eu cael ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc. Roedd yr atebion yn canolbwyntio ar y cwestiwn ac yn dangos tystiolaeth glir gydag enghreifftiau mewn llawer o ymatebion. Atebodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y cwestiwn hwn mewn ffordd wybodus a chlr. Nodwyd pwyntiau allweddol ynglŷn â phwysigrwydd cysylltiadau cyfathrebu cadarnhaol â ffrindiau neu deulu na fyddant o reidrwydd yn gallu gweld y plentyn neu'r person ifanc. Roedd y trafodaethau hefyd yn cysylltu ag addysg a manteision ennill gwybodaeth a dealltwriaeth drwy ddefnyddio technoleg sy'n cefnogi gwahanol arddulliau dysgu. Roedd yr atebion am yr effeithiau negyddol yn rhoi cysylltiadau clir â pheryglon technoleg a chodi ymwybyddiaeth o'r agweddau negyddol sy'n gallu arwain at feithrin perthynas amhriodol ar-lein a phryderon am ddiogelu, a chafwyd trafodaethau hefyd am fwlio a phryderon iechyd meddwl a'r posibilrwydd o arafu datblygiad sgiliau cymdeithasol mewn rhyngweithiadau bywyd go iawn.

**C.4 Mae Gwasanaethau Lleol a Chenedlaethol yng Nghymru yn rhoi cefnogaeth hanfodol, ac yn hybu iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.**

**(a) Amlinellwch y gefnogaeth mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn gallu ei rhoi i blant a phobl ifanc.**

Roedd y cwestiwn hwn yn cynnig cyfle i amlinellu rôl sylweddol y gwasanaeth CAMHS. Rhoddodd y dysgwyr atebion cadarnhaol, gan drafod sut gellir darparu cefnogaeth teulu cyfan a chanolbwyntio ar y math o gefnogaeth mae gweithwyr proffesiynol yn ei darparu wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc. Gwnaethpwyd pwyntiau pwysig ynghylch sut mae CAMHS yn asesu ac yn cefnogi iechyd a llesiant emosiynol. Roedd diffyg gwybodaeth am y mathau o anawsterau iechyd a llesiant emosiynol allai wynebu plant a phobl ifanc, a fyddai wedi rhoi amlinelliad ehangach a mwy cyflawn o'r materion iechyd meddwl neu brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n achosi anawsterau i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir ynghylch anghenion y gwasanaeth CAMHS.

**C.4 (b) Disgrifiwch beth yw manteision Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) wrth gefnogi iechyd meddwl a llesiant plant.**

Roedd y cwestiwn yn gwneud mwy i ddatblygu dealltwriaeth o rôl CAMHS ac yn gofyn am ddisgrifiad o fanteision y gwasanaeth. Cafodd trafodaethau da eu creu am y meysydd sydd o fantais i blant a phobl ifanc drwy ddarparu cymorth a chynghor i ennill y sgiliau, y wybodaeth a'r adnoddau i ofalu am eu hiechyd meddwl, ac am ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i deuluoedd pan fydd plant yn cael trafferth ag iechyd a llesiant.

Cafwyd disgrifiadau da o fanteision i lesiant plant a phobl ifanc a hybu canlyniadau da. Rhoddwyd disgrifiadau o fanteision rheoli eu bywydau eu hunain, drwy wella eu cyfleoedd, ymwneud mwy ag addysg, a gwella eu hopsiynau cyflogaeth yn y dyfodol. Cafodd rhai dysgwyr farciau uwch drwy roi disgrifiad da iawn a dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â nifer o feysydd fel manteision ymyrryd yn gynnar, dulliau gweithredu cadarnhaol i adeiladu gwydnwch a galluogi gwell dealltwriaeth o emosiynau.

**C.5 Mae alcohol yn lladd mwy o bobl ifanc yn eu harddegau (*teenagers*) na phob cyffur arall gyda'i gilydd. Mae pobl ifanc sy'n yfed alcohol 7.5 gwaith yn fwy tebygol o ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon eraill a 50 gwaith yn fwy tebygol o ddefnyddio cocên na phobl ifanc sydd byth yn yfed alcohol. ([www.drugfreeworld.org/drugfacts/alcohol/international-statistics.html](http://www.drugfreeworld.org/drugfacts/alcohol/international-statistics.html))**

**Disgrifiwch beth yw gwerth addysg am gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol er mwyn hybu llesiant plant a phobl ifanc.**

Cafwyd atebion da iawn i'r cwestiwn hwn. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddisgrifiad manwl o werth addysg am gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Roedd yr atebion wedi'u hysgrifennu i adlewyrchu pwysigrwydd hybu llesiant drwy addysgu, diogelu a chefnogi plant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau cadarnhaol a lleihau agweddau sy'n dylanwadu ar yfed dan oed. Rhoddodd ymgeiswyr ddisgrifiadau da o bwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o effeithiau camddefnyddio sylweddau a'r effaith ar bobl o'u cwmpas. Rhoddwyd disgrifiadau da iawn o dargedu a chefnogi pobl ifanc, cefnogi teuluoedd a gwerth addysg i'r effaith ar lesiant. Rhoddwyd marciau uwch i ymgeiswyr a oedd yn rhoi disgrifiad da iawn gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth.

**C.6 Mae dysgu gweithredol a dysgu drwy brofiadau yn cael effaith sylweddol ar blant yn y blynyddoedd cynnar. Er mwyn cefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth y plant am 'bethau byw', mae staff y feithrinfa wedi sefydlu ardal yr ardd (*garden area*) newydd.**

**Awgrymwch sut mae ardal yr ardd yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y plant drwy ddysgu gweithredol a dysgu drwy brofiadau.**

Mae'r cwestiwn hwn yn adlewyrchu gwerth profiadau ymarferol go iawn yn y gweithle, ac roedd diffyg gwybodaeth ymarferol yn glir. Roedd llawer o ymgeiswyr yn canolbwyntio ar y sgiliau corfforol mae plant yn gallu eu hennill yn yr amgylchedd awyr agored, fel dysgu sut i ddefnyddio offer a sut i drin cyfarpar gardd yn ddiogel, ond roedd yr atebion yn sylfaenol ac yn gyfyngedig. Roedd gan y cwestiwn hwn lai o atebion ar thema 'pethau byw', a cholwyd cyfleoedd i awgrymu profiadau dysgu yn yr awyr agored yn ymwneud â bywyd gwylt, pryfed, a bywyd planhigion a choed. Rhoddwyd marciau uwch i ymgeiswyr am ddatblygu awgrymiadau da ar gyfer dysgu gweithredol a dysgu drwy brofiadau, fel datblygu syniadau ynghylch cyfleoedd i ddysgu, er enghraifft, sôn am gylchred bywyd, dysgu am dwf iach. Collwyd cyfleoedd i awgrymu dysgu gweithredol a dysgu drwy brofiadau am fywyd gwylt, eu cartrefi, ymwneud â phlannu a phrofiad bywyd go iawn o ddeall beth sydd ei angen ar blanhigion i oroesi a dysgu am lysiau a beth gallwn ni ei fwyta o'r ardd.

**C.7 Mae Amelia yn bedair oed ac mae'n mynd i'r ysgol gynradd leol. Mae gan Amelia syndrom Down. Mae ganddi nifer o anghenion corfforol, problemau iechyd, a phroblemau gweld a chlywed. Oherwydd hyn, mae angen cefnogaeth ychwanegol arni.**

**(a) Esboniwch rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo) wrth gefnogi datblygiad cyfannol Amelia.**

Arweiniodd y cwestiwn hwn at esboniadau da o weithredoedd amrywiol bob dydd ALNCo, a chafwyd rhai esboniadau o ymyrryd yn gynnar, asesu, a chynllunio. Esboniodd rhai ymgeiswyr bwysigrwydd cynllun addysg unigol i arwain at well canlyniadau unigol a chyfathrebu â staff a theuluoedd. Nid oedd llawer o atebion yn sôn am gyflwr Amelia a'r hyn allai fod yn anodd iddi fel unigolyn pedair oed mewn amgylchedd ystafell ddosbarth. Collwyd cyfleoedd i esbonio rôl yr ALNCo ymhellach mewn perthynas ag anghenion penodol Amelia a'r ffaith bod ganddi syndrom Down.

**(b) Cyfiawnhewch (*justify*) beth yw gwerth Cynllun Datblygu Unigol wrth gefnogi anghenion ychwanegol Amelia.**

Roedd y cwestiwn hwn yn parhau i sôn am rôl yr ALNCo a phwysigrwydd rhoi cynllun addysg unigol ar waith. Roedd llawer o ymgeiswyr yn sôn am arwyddocâd y cynllun datblygu unigol i helpu plant i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl a diwallu eu hanghenion unigol cystal â phosibl. Dangoswyd dealltwriaeth dda o ddarparu addasiadau i'r amgylchedd i ddiwallu anghenion unigolion. Nododd ymgeiswyr mai gwerth y cynllun datblygu unigol yw cynorthwyo ag asesu ac adolygu, a bod yr holl staff yn gallu cefnogi a chynllunio'n effeithiol. Roedd diffyg dealltwriaeth ymarferol yn gyffredinol, a diffyg myfyrio ynghylch profiad o weithio gyda phlant ag angen cynllun datblygu unigol. Roedd atebion y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn rhoi cyfiawnhad sylfaenol neu dda, a chawsant farciau i adlewyrchu hyn yn y bandiau isaf.

- C.8 Mae Gethin yn ddwy oed. Cyn bo hir, bydd yn dechrau mynd i'r lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg yn ei bentref. Mae ei fam a'i dad ychydig bach yn bryderus (*anxious*) gan nad yw Gethin wedi dechrau siarad eto. Maen nhw'n bwriadu trafod eu pryderon pan fyddan nhw'n ymweld â'r lleoliad.**

**Trafodwch sut mae'r staff Dechrau'n Deg yn gallu gweithio mewn partneriaeth â rhieni Gethin i gefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu cynnar Gethin.**

Roedd y cwestiwn yn canolbwyntio ar wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r Rhaglen Dechrau'n Deg. Cyfyngedig oedd y drafodaeth ym mwyafrif yr ymatebion, ac roedd yr ymatebion a roddwyd yn sylfaenol neu'n dangos dealltwriaeth dda. Roedd rhai o'r meysydd a drafodwyd yn seiliedig ar annog siarad a defnyddio canmoliaeth, er bod diffyg manylder yn gyffredinol o ran y Rhaglen Dechrau'n Deg a rôl y staff o weithio gyda rhieni. Roedd rhai ymgeiswyr yn cyrraedd y marciau uchaf am drafodaethau manylach yn dangos ymatebion da iawn mewn meysydd fel annog a chefnogi rhieni i ddatblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu, er eu bod wedi colli cyfleoedd i roi ymatebion priodol am raglenni rhianta neu strategaethau i ddatblygu iaith.

- C.9 Mae gwahaniaethu (*differentiation*) yn strategaeth bwysig i wella canlyniadau dysgu plant.**

**Archwiliwch sut mae gweithwyr blynyddoedd cynnar yn gallu defnyddio gwahaniaethu i ddarparu profiad dysgu cyfoethog i bob plentyn.**

Cafwyd atebion da i'r cwestiwn hwn, a llwyddodd llawer o'r ymgeiswyr i gael marciau uchel. Roedd y pwyntiau am wahaniaethu a drafodwyd yn ymwneud â darparu amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar i ddiwallu anghenion unigol plant. Cafwyd trafodaethau da yn cysylltu gwahaniaethu â gwahanol arddulliau dysgu ac yn archwilio cyfleoedd i bob plentyn gael amrywiaeth o brofiadau addysgu a dysgu. Roedd rhai ymgeiswyr yn archwilio sut gellir sicrhau amgylchedd dysgu cyfoethog drwy fodloni gwahanol arddulliau dysgu a drwy ddewis amrywiaeth o adnoddau a deunyddiau i greu gweithgareddau dysgu amrywiol a chefnogi dysgu. Yn anffodus, roedd rhai dysgwyr yn archwilio camwahaniaethu a phwysigrwydd darparu amrywiaeth a chydarddoldeb gan eu bod wedi camddarllen neu gamddeall y cwestiwn.

- C.10. Mae chwarae rôl yn brofiad dysgu gwerthfawr i blant yn y blynyddoedd cynnar ac mae'n rhoi cyfleoedd i blant archwilio bywyd go iawn neu fydoedd dychmygol (*imaginary worlds*).**

**Esboniwch beth yw manteision chwarae rôl o ran hybu dysgu a datblygiad cyfannol plant.**

Ymatebodd yr ymgeiswyr yn dda i'r cwestiwn hwn; ar y cyfan, roeddent yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn ynglŷn â manteision chwarae rôl o ran hybu dysgu a datblygiad cyfannol plant. Trafododd yr ymgeiswyr amrywiaeth o bwyntiau yn ymwneud â'r cyfleoedd dysgu mae chwarae rôl yn gallu eu darparu, fel dysgu drwy gyfleoedd addysg creadigol, dychmygus a chwarae rhydd a drwy brofiadau wedi'u cychwyn gan blant. Trafododd rhai ymgeiswyr sut mae chwarae rôl yn gallu helpu plant i ddysgu amrywiaeth o sgiliau personol a datblygiad cyfannol, a soniodd llawer o'r ymgeiswyr am bob maes datblygu gan esbonio'r manteision posibl drwy chwarae rôl. Ar y cyfan, ymatebion da iawn; byddai trafodaeth bellach am brofiadau ymarferol wedi gwella esboniadau ymgeiswyr a dangos lefel uwch o wybodaeth a dealltwriaeth.



**C.11 Mae'r Gymdeithas Ysgolion Coedwig yn cefnogi athrawon i ddefnyddio dull arloesol sy'n rhoi cyfle i blant gael profiad o ddysgu yn yr amgylchedd awyr agored.**

**(a) Dadansoddwch effaith y dull 'Ysgolion Coedwig' ar blant wrth chwarae a dysgu yn yr awyr agored.**

Ymatebodd yr ymgeiswyr yn dda iawn ar y cyfan i'r cwestiwn hwn, gan ddangos dealltwriaeth dda o effaith y dull 'Ysgolion Coedwig'. Roedd yr ymatebion yn sôn am y rhyddid mae chwarae yn yr awyr agored yn gallu ei roi, gan ddarparu cyfleoedd dysgu newydd oddi wrth yr ystafell ddosbarth i gefnogi datblygiad personol plant, fel hunan-barch a hunanhyder. Mae trafodaeth am bwysigrwydd dysgu am natur a bod yn rhan o natur yn arwyddocaol i wybodaeth a dealltwriaeth plentyn. Rhoddodd rhai ymgeiswyr ymateb da gan roi manylion ynghylch sut gall y dysgu hwn gefnogi ac effeithio ar brofiadau dysgu plant a gafodd eu gwella gan enghreifftiau ymarferol o ymarfer.

Ar y cyfan, ni wnaeth yr ymgeiswyr ymateb yn briodol i'r gair gorchymyn dadansoddwch; roedd yr ymatebion a roddwyd i gyd yn gadarnhaol ac yn methu â chyflwyno safbwynt dadansoddol ehangach i nodi sut gall tywydd, staffio, salwch, adnoddau neu gyfleusterau ac ati effeithio ar amgylchedd dysgu awyr agored cyson neu effeithiol.

**(b) Crynowch (*summarise*) effaith damcaniaeth Helen Bilton am ddysgu awyr agored mewn perthynas â'r dull 'Ysgolion Coedwig'.**

Roedd diffyg dealltwriaeth cyffredinol ynglŷn ag effaith damcaniaeth Helen Bilton am ddysgu awyr agored. Yn gyffredinol, roedd ymatebion yr ymgeiswyr yn amwys iawn neu'n dangos diffyg dealltwriaeth. Ni wnaeth rhai ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn hwn yn y papur, o bosibl oherwydd amser, camgymeriad, neu ddiffyg gwybodaeth. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn gallu cysylltu'n dda ac adeiladu ar y cwestiwn blaenorol drwy grynhai effaith y syniadau ynghylch dysgu yn yr awyr agored. Dangosodd rhai ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o 'Ysgolion Coedwig' a'u heffaith o wella datblygiad plant a'u dysgu yn yr awyr agored. Roedd yr ymatebion yn sôn am effaith Helen Bilton ar ddysgu drwy brofiadau synhwyraidd a defnyddio adnoddau naturiol i ddatblygu sgiliau iaith a chyfathrebu. Roedd rhai ymgeiswyr yn crynhoi sut mae angen gweld manau dan do ac awyr agored fel amgylchedd addysgu a dysgu cyfartal a sut mae bod yn yr awyr agored a chael profiad o natur yn hanfodol i blant.



CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin  
Caerdydd CF5 2YX  
Rhif Ffôn 029 2026 5000  
Ffacs 029 2057 5994  
E-bost: [arholiadau@cbac.co.uk](mailto:arholiadau@cbac.co.uk)  
gwefan: [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)